ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	22 Mehefin 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
PWNC:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2022

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 Hysbysu Aelodau ynglŷn â blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith a gytunwyd ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer blwyddyn 2022.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoliad a gorfodaeth effeithiol o drwyddedai, ac ymrwymiad yr Awdurdod i gymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Oherwydd blaenoriaethau na ragwelwyd, bu'n rhaid diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gymeradwywyd gan Aelodau yn y cyfarfod blaenorol ac mae materion wedi eu hail-drefnu i'w hystyried.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Efallai y bydd aelodau blaenorol o'r Pwyllgor yn cofio yn y cyfarfod diwethaf ym Mawrth 2022, bu i Swyddogion gyflwyno rhaglen waith a ddiweddarwyd ac a gymeradwywyd. Trefnwyd i Swyddogion gyflwyno nifer o faterion a ddiweddarwyd i chi eu hystyried i'r cyfarfod hwn, fodd bynnag oherwydd nifer o ffactorau, bydd y materion yn cael eu cyflwyno i chi mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig yn Atodiad A.

3.2

Mae Swyddogion wedi cymryd y cyfle hwn i roi diweddariad i Aelodau ar faterion a ddylai fod wedi dod i'r cyfarfod hwn fel nodir isod:

3.2.1 **Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat**

Mae Swyddogion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu ar gyfer y diwydiant tacsis yn dilyn argymhellion yr Adran Gludiant i weithredu'r safonau statudol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi cynhyrchu templed polisi yn ddiweddar i awdurdodau Cymreig ei defnyddio. Mae Swyddogion wedi cynnal ymarfer ymgynghori interim gydag aelodau o'r diwydiant tacsis i gasglu barn y rhai sy'n gweithio yn y maes, fodd bynnag, mae'r gwaith yn parhau i orffen y ddogfen bolisi, a fydd yn mynd i'r holl ddiwydiant a'r cyhoedd ehangach, fel y cytunwyd gan Aelodau yn y cyfarfod ym mis Mehefin y

3.2.2 llynedd.

Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005

Mae adolygiad o Ddatganiad o Egwyddorion Deddf Gamblo 2005 yn cael ei gynnal ar y cyd â chwe awdurdod Gogledd Cymru a phan fydd yr adolygiad wedi ei orffen, bydd swyddogion yn gallu cyflwyno'r adolygiad

3.3.3 arfaethedig i Aelodau.

Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd

Yn y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021, bu i Aelodau gymeradwyo adolygiad drafft o'r Polisi Masnachu ar y Stryd. Bu iddynt gytuno ymhellach i gefnogi sefydlu Is-Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Grŵp Ardal yr Aelodau, y diben yw gweithio gyda swyddogion i ddatblygu'r polisi ymhellach cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w gymeradwyo ac ymgynghoriad dilynol. Cyn yr etholiadau diweddar, bu i'r Is-Grŵp gyfarfod ddwywaith a chytunwyd fod materion allweddol yn parhau megis marchnadoedd a strydoedd gwaharddedig sydd angen ystyriaeth bellach, a all ail-ddechrau nawr gan fod cyfnod Cyngor

3.3.4 newydd.

Datganiad o Bolisi Trwyddedu – Deddf Trwyddedu 2003

Yn y cyfarfod ym Medi 2021 bu i Aelodau awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar ddatganiad polisi diwygiedig. Ers y cyfarfod hwnnw, mae Swyddogion wedi bod yn gweithio ar sicrhau bod y fersiwn diwygiedig o'r polisi yn bodloni gofynion hygyrchedd cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen ymgynghori bellach yn barod ac mae Swyddogion yn gweithio gyda Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Cyngor i sicrhau bod y gofynion ymgynghori statudol wedi eu bodloni. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyflwynir adroddiad i'r Cyngor Llawn i ystyried

4. mabwysiadu'r polisi diwygiedig.

4.1 **ARGYMHELLION**

4.2 Argymhellir fod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac

Argymhellir ymhellach fod yr Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig a nodir yn Atodiad A ar gyfer blwyddyn 2022.